OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1848 (Cy.177)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - - 9 Gorffennaf 2008

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 26 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**1**) a chan adrannau 45, 105 a 106(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**2**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**3**):

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ynglŷn â'r Rheoliadau hyn yn unol ag adran 45(8A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Yn unol ag adran 45(8B) ac (8C) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ynglŷn â pha mor ddealladwy yw'r cwestiynau y gellir eu gofyn mewn refferendwm ynghyd â'r datganiadau sy'n rhagflaenu'r cwestiynau hynny fel a bennir yn y Rheoliadau hyn. Maent wedi cyflwyno adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n datgan y safbwyntiau a fynegwyd gan y Comisiwn yn ei ymateb.

Yn unol ag adran 45(8D) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn am farn y Comisiwn Etholiadol ar fater y cyfyngiad treuliau refferendwm ac wedi rhoi sylw i'r farn honno. Nid ydynt wedi cyflwyno datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r is-adran honno oherwydd bod y Rheoliadau hyn yn cyd-fynd â'r farn honno.

Yn unol ag adran 105(6) o'r Ddeddf honno (fel y'i cymhwysir gan baragraff 34(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), mae drafft o'r offeryn hwn wedi ei osod gerbron ac wedi ei gymeradwyo gan benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Enwi, cychwyn a dirymu

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym 14 diwrnod ar ôl y diwrnod pan gânt eu gwneud.

(**1**) 1993 p.38.

(**2**) 2000 p.22; mewnosodwyd adrannau 45(8A) i (8D) a diwygiwyd adran 45(9) gan baragraff 18 o Atodlen 21 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p.41); diwygiwyd adran 105(6) a mewnosodwyd adran 105(6A) gan baragraff 14 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26).

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys ar gyfer cynnal refferenda gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

(4) Dirymir Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2004(**4**).

Dehongli

2.—(1) Yn y rheoliadau hyn—

ystyr "ardal y bleidlais" ("*voting area*") yw'r ardal lle y cynhelir refferendwm;

ystyr "arsylwr cyfrif" ("*counting observer*") yw person a benodir gan swyddog cyfrif o dan reol 18(2) o Reolau Refferenda'r Ddeddf Lywodraeth Leol;

ystyr "arsylwr pleidleisio" ("*polling observer*") yw person a benodir gan swyddog cyfrif o dan reol 18(1) o Reolau Refferenda'r Ddeddf Llywodraeth Leol;

ystyr "cyfnod y refferendwm ("*referendum period*"), mewn perthynas â refferendwm (gan gynnwys refferendwm pellach), yw'r cyfnod sy'n cychwyn ar—

(a) pan fo'r dyddiad cynigion yn rhagflaenu'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym;

(b) mewn unrhyw achos arall, dyddiad y cynigion,

ac yn diweddu ar ddyddiad y refferendwm;

ystyr "cynigion wrth gefn amlinellol" ("outline fall-back proposals")—

(a) mewn perthynas â chynigion o dan adran 25 (cynigion) o Ddeddf 2000, yw amlinelliad o'r cynigion y mae awdurdod lleol yn bwriadu eu gweithredu pe bai ei gynigion o dan adran 25 yn cael eu gwrthod mewn refferendwm;

(b) mewn perthynas â chynigion o dan reoliad 17 (gweithredu cyn refferendwm) neu reoliad 19 (gweithredu yn dilyn cyfarwyddyd) o'r Rheoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau, yw amlinelliad o'r cynigion y mae awdurdod lleol yn bwriadu eu gweithredu pe bai'r cynigion sydd i fod yn destun refferendwm o dan Ran II neu Ran III o'r Rheoliadau hynny yn cael eu gwrthod yn y refferendwm hwnnw;

(c) mewn perthynas â chynigion o dan orchymyn o dan adran 36 (refferendwm yn dilyn gorchymyn) o Ddeddf 2000, yw—

(i) os yw'r awdurdod lleol bryd hynny yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth neu drefniadau amgen, crynodeb o'r trefniadau hynny;

(ii) mewn unrhyw achos arall, amlinelliad o'r cynigion a bennir yn y gorchymyn y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu gweithredu pe bai cynigion sydd i fod yn destun refferendwm yn cael eu gwrthod yn y refferendwm hwnnw;

(ch) mewn perthynas â chynigion o dan reoliadau o dan adran 30 (gweithredu trefniadau gweithrediaeth gwahanol) neu adran 33 (gweithredu trefniadau amgen) o Ddeddf 2000, yw crynodeb o drefniadau gweithrediaeth presennol neu drefniadau amgen presennol yr awdurdod lleol (yn ôl y digwydd);

ystyr "Deddf 1983" ("*the 1983 Act*") yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**5**);

ystyr "Deddf 1985" ("*the 1985 Act*") yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985(**6**);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000(**7**);

ystyr "Deddf CB 2000" ("*the RP Act 2000*") yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000(**8**);

(**4**) O.S. 2004/870 (Cy.85), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3302 (Cy.256).
(**5**) 1983 p.2.
(**6**) 1985 p.50.
(**7**) 2000 p.22.
(**8**) 2000 p.2.

ystyr "Deddf yr Etholiadau" ("*the Elections Act*") yw Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (**9**);

ystyr "dyddiad y cynigion" ("*proposals date*")—

(d) mewn perthynas â refferendwm, ac eithrio refferendwm pellach, yw'r dyddiad pan gaiff cynigion—

(i) o dan adran 25 o Ddeddf 2000 sy'n ymwneud â ffurf o weithrediaeth y mae refferendwm yn ofynnol ar ei chyfer,

(ii) o dan reoliad 17 neu 19 o'r Rheoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau,

(iii) o dan orchymyn o dan adran 36 o Ddeddf 2000, neu

(iv) o dan reoliadau o dan adran 30 neu 33 o Ddeddf 2000(**10**),

eu hanfon at Weinidogion Cymru; a

(e) mewn perthynas â refferendwm pellach, yw'r diwrnod sy'n digwydd ddau fis cyn y diwrnod y cynhelir y bleidlais yn y refferendwm pellach;

rhaid dehongli "etholiad llywodraeth leol" ("*local government election*") yn unol ag adran 203(1) o Ddeddf 1983;

rhaid dehongli "etholiad maerol" ("*mayoral election*") yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Etholiadau Maerol) (Cymru a Lloegr) 2007(**11**);

rhaid dehongli "etholiad Senedd Ewrop" ("*European Parliamentary election*") ac "etholiad cyffredinol Senedd Ewrop" ("*European Parliamentary general election*") yn unol ag adran 27(1) o Ddeddf 1985(**12**);

ystyr "maer etholedig" ("*elected mayor*"), mewn perthynas ag awdurdod lleol, yw unigolyn a etholir yn faer yr awdurdod lleol gan etholwyr llywodraeth leol ardal yr awdurdod lleol yn unol â darpariaethau a wnaed gan, neu o dan Ran II o Ddeddf 2000;

ystyr "refferendwm" ("*referendum*") yw refferendwm a gynhelir o dan adran 27 (refferendwm yn achos cynigion sy'n ymwneud â maer etholedig) o Ddeddf 2000, neu yn rhinwedd rheoliadau neu orchymyn a wnaed o dan unrhyw ddarpariaeth o Ran II (trefniadau o ran gweithrediaethau etc.) o Ddeddf 2000;

ystyr "refferendwm pellach" ("*further referendum*) yw refferendwm a gynhelir yn unol â gorchymyn o dan reoliad 13(3);

ystyr "Rheolau Refferenda'r Ddeddf Llywodraeth Leol" ("*the Local Government Act Referendums Rules*") yw'r rheolau a nodir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn;

ystyr "Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl" ("*the Representation of the People Regulations*") yw Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001(**13**);

ystyr "y Rheoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau" ("*the Petitions and Directions Regulations*") yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001(**14**);

ystyr "swyddog cyfrif" ("*counting officer*") yw person y cyfeirir ato yn rheoliad 9;

(**9**) 2000 p.41.
(**10**) *Gweler* Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/3158 (Cy.275)).
(**11**) O.S. 2007/1024.
(**12**) 1985 c. 50; diwygiwyd y diffiniadau gan adran 3 o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd (Diwygio) 1986 (p.58) o ganlyniad i ailenwi Cynulliad Ewrop yn Senedd Ewrop.
(**13**) O.S. 2001/341; fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/1700, 2002/1871, 2004/226, 2006/752 a 2006/2910.
(**14**) O.S. 2001/2292 (Cy.180) fel y'i diwygiwyd gan O.S.2003/398 (Cy.55).

mae i "swyddog priodol" yr ystyr a roddir i "*proper officer*" yn adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**15**); ac

ystyr "trefnydd deiseb" ("*petition organiser*"), mewn perthynas â refferendwm, yw person a drinnir at ddibenion rheoliad 10(4) neu (5) (ffurfioldebau deisebau) (yn ôl y digwydd) o'r Rheoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau fel trefnydd unrhyw ddeiseb ddilys (p'un ai deiseb gyfunedig, deiseb gyfansoddol neu ddeiseb wedi'r cyhoeddiad) a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal y refferendwm neu y cynhelir y refferendwm mewn perthynas ag ef(**16**).

(2) Mae pob cyfeiriad yn y darpariaethau canlynol o'r Rheoliadau hyn at adran â rhif yn ei dilyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu'n wahanol, yn gyfeiriad at yr adran yn Neddf 2000 sy'n dwyn y rhif hwnnw.

Y datganiad a'r cwestiwn sydd i'w ofyn mewn refferendwm

3. Pan fo'r cynigion y cynhelir refferendwm mewn perthynas â hwy yn ymwneud ag—

(a) gweithrediaeth o faer a chabinet, mae'r datganiad sydd i ragflaenu'r cwestiwn ("y datganiad") a'r cwestiwn sydd i'w ofyn yn y refferendwm hwnnw i fod yn y ffurf a bennir ym mharagraff 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

(b) gweithrediaeth o faer a rheolydd y cyngor, mae'r datganiad a'r cwestiwn sydd i'w ofyn yn y refferendwm hwnnw i fod yn y ffurf a bennir ym mharagraff 2 o'r Atodlen honno;

(c) gweithrediaeth o arweinydd a chabinet, mae'r datganiad a'r cwestiwn sydd i'w ofyn yn y refferendwm hwnnw i fod yn y ffurf a bennir ym mharagraff 3 o'r Atodlen honno.

Cyhoeddusrwydd a gwybodaeth arall mewn cysylltiad â refferenda

4.—(1) Rhaid i'r swyddog priodol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y dyddiad cynigion, gyhoeddi mewn o leiaf un o'r papurau newydd sy'n cylchredeg yn ardal yr awdurdod lleol hysbysiad sydd yn cynnwys—

(a) datganiad, yn ôl y digwydd, bod—

(i) cynigion o dan adran 25 sy'n ymwneud â ffurf o weithrediaeth y mae refferendwm yn ofynnol ar ei chyfer,

(ii) cynigion o dan reoliad 17(3) neu 19(1) o'r Rheoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau,

(iii) cynigion o dan orchymyn o dan adran 36, neu

(iv) cynigion o dan reoliadau o dan adran 30 neu 33,

wedi eu hanfon at Weinidogion Cymru;

(b) disgrifiad o brif nodweddion y cynigion ac o'r cynigion wrth gefn amlinellol;

(c) datganiad—

(i) y cynhelir refferendwm,

(ii) o'r dyddiad y cynhelir y refferendwm,

(iii) o'r cwestiwn sydd i'w ofyn yn y refferendwm,

(iv) y cynhelir y refferendwm yn unol â gweithdrefnau cyffelyb i'r rhai a ddefnyddir mewn etholiadau llywodraeth leol,

(**15**) 1972 p.70.

(**16**) Ceir diffiniad o "*petition organiser*" yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau Deisebau a Chyfarwyddiadau. O ran dilysrwydd deisebau, *gweler* rheoliad 9(1) o'r Rheoliadau hynny. O ran deisebau cyfunedig, deisebau cyfansoddol a deisebau wedi'r cyhoeddiad, ceir diffiniadau perthnasol yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau hynny.

(v) o'r cyfyngiad treuliau refferendwm (fel y'i diffinnir yn rheoliad 6(1)) a fydd yn gymwys mewn perthynas â'r refferendwm, ac o nifer yr etholwyr llywodraeth leol y cyfrifwyd y cyfyngiad hwnnw drwy gyfeirio ato,

(vi) o'r cyfeiriad lle y gellir archwilio copi o'r cynigion a chynigion wrth gefn amlinellol yr awdurdod lleol, a'r amserau pan ellir gwneud hynny, a

(vii) o'r gweithdrefnau ar gyfer cael copi o'r cynigion a'r cynigion wrth gefn amlinellol.

(2) Oni chyhoeddir yr hysbysiad sy'n ofynnol ei gyhoeddi yn ôl paragraff (1) ("yr hysbysiad cyntaf") o fewn llai na 56 o ddiwrnodau cyn dyddiad y refferendwm, rhaid i'r swyddog priodol gyhoeddi ail hysbysiad a fydd yn cynnwys y manylion a bennir ym mharagraff (1)(c)(i) i (vii).

(3) Rhaid cyhoeddi'r ail hysbysiad—

(a) yn yr un papur neu bapurau newydd a ddefnyddiwyd i gyhoeddi'r hysbysiad cyntaf, a

(b) nid mwy na 55 o ddiwrnodau ac nid llai na 28 o ddiwrnodau cyn dyddiad y refferendwm.

(4) Drwy gydol cyfnod y refferendwm, yn y cyfeiriad ac yn ystod yr amserau a nodir yn yr hysbysiad, a hynny'n ddi-dâl, rhaid i'r awdurdod lleol roi copi ar gael i'w archwilio o'i gynigion a'i gynigion wrth gefn amlinellol, a rhaid iddo sicrhau bod nifer digonol o gopïau ar gael i bersonau sy'n dymuno cael copïau.

(5) Caiff yr awdurdod lleol ddarparu (p'un ai yn unol ag unrhyw ddyletswydd i wneud hynny ai peidio) unrhyw wybodaeth ffeithiol arall mewn perthynas â'r cynigion, y cynigion wrth gefn amlinellol neu'r refferendwm, cyn belled ag y cyflwynir yr wybodaeth honno yn deg.

(6) Wrth benderfynu at ddibenion paragraff (5) a yw unrhyw wybodaeth yn cael ei chyflwyno'n deg, rhaid rhoi sylw, yn unol ag adran 38, i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir am y tro gan Weinidogion Cymru o dan adran 38.

Cyfyngu ar gyhoeddi etc. deunydd hyrwyddo

5.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw ddeunydd sydd—

(a) yn darparu gwybodaeth gyffredinol am y refferendwm,

(b) yn ymwneud ag unrhyw un o'r materion a godir gan y cwestiwn sydd i'w ofyn yn y refferendwm, neu

(c) yn cyflwyno unrhyw ddadleuon o blaid neu yn erbyn ateb penodol i'r cwestiwn hwnnw.

(2) Ni chaniateir cyhoeddi unrhyw ddeunydd y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo gan neu ar ran awdurdod lleol yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod a ddaw i ben ar ddyddiad y bleidlais yn y refferendwm.

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys i—

(a) deunydd a roddir ar gael i bersonau mewn ymateb i geisiadau penodol am wybodaeth neu i bersonau sy'n ceisio cael mynediad i'r deunydd yn benodol,

(b) cyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â chynnal y bleidlais yn y refferendwm, neu

(c) cyhoeddi hysbysiadau i'r wasg sy'n cynnwys gwybodaeth ffeithiol, os unig ddiben y cyhoeddi yw gwrthbrofi neu gywiro unrhyw anghywirdeb mewn deunydd a gyhoeddir gan berson ac eithrio'r awdurdod lleol.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cyhoeddi" ("*publish*") yw rhoi ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol, neu i unrhyw ran o'r cyhoedd, ar ba ffurf bynnag a thrwy ba bynnag ddull (gan gynnwys, yn benodol, drwy gynnwys mewn unrhyw raglen a gynhwysir mewn gwasanaeth rhaglenedig o fewn ystyr Deddf Darlledu 1990 (**17**)); a dylid dehongli "cyhoeddiad" ("*publication*") yn yr un modd.

(**17**) 1990 p.42. Diwygiwyd adran 201, sy'n cynnwys y diffiniad o "*programme service*", gan adran 360 o Ddeddf Cyfathrebu 2003 (p.21) ac Atodlen 19 i'r Ddeddf honno.